

CYNGOR - DYDD MERCHER, 25 EBRILL 2018

**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWIYD YN SIAMBR Y CYNGOR -
SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD
MERCHER, 25 EBRILL 2018, AM 15:00**

Presennol

Y Cyngorydd PA Davies – Cadeirydd

S Aspey	SE Baldwin	TH Beedle	JPD Blundell
NA Burnett	MC Clarke	N Clarke	RJ Collins
HJ David	P Davies	SK Dendy	DK Edwards
J Gebbie	T Giffard	CA Green	DG Howells
A Hussain	B Jones	M Jones	MJ Kearns
DRW Lewis	JE Lewis	JR McCarthy	DG Owen
D Patel	AA Pucella	JC Radcliffe	KL Rowlands
B Sedgebeer	RMI Shaw	CE Smith	JC Spanswick
RME Stirman	G Thomas	T Thomas	JH Tildesley MBE
E Venables	SR Vidal	LM Walters	KJ Watts
CA Webster	DBF White	PJ White	A Williams
AJ Williams	HM Williams	JE Williams	RE Young

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM James, RL Penhale-Thomas, SG Smith a/ac MC Voisey

Swyddogion:

Susan Cooper	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro)
Andrew Jolley	Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethiol
Gary Jones	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Susan Jones	Rheolwr Cynllunio Datblygu
Gill Lewis	Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Jonathan Parsons	Rheolwr Grŵp Datblygu
Andrew Rees	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Mark Shephard	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Kevin Stephens	Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democrataidd
Kelly Watson	Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

156. MUNUD O DAWELWCH

Â thristwch, cyfeiriodd y Maer at farwolaeth y cyn-gyngorydd Colin Teesdale sef cyn-Faer y Fwrdeistref Sirol, Aelod Cabinet a hefyd cyn aelod o Gyngor Tref Maesteg. Gofynnodd y Maer i'r aelodau ymuno mewn munud o dawelwch er cof amdano.

Cododd pawb ar eu traed mewn teyrnged.

157. DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y Buddiannau canlynol:

Datganodd y Cyngorydd DG Owen fudd personol a rhagfarn o ran eitem 6 ar yr agenda - Sefydliad y Gweithiwr Nant-y-moel - gan ei fod yn Ymddiriedolwr Clwb Bechgyn a

Merched a Chanolfan Gymunedol Nant-y-moel a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth hon.

Datganodd y Cynghorydd JC Spanswick fudd personol a rhagfarn yn eitem 6 ar yr agenda - Sefydliad y Gweithiwr Nantymoel - gan ei fod yn Ymddiriedolwr Clwb Bechgyn a Merched a Chanolfan Gymunedol Nantymoel a gadawodd y cyfarfod yn ystod y gwaith o ystyried y mater hwn.

Datganodd y Rheolwr Grŵp - – Cyfreithiol fudd yn eitem 16 ar yr agenda - penodi Cyfreithiwr a Swyddog Monitro i'r Cyngor gadawodd y cyfarfod yn ystod y gwaith o ystyried y mater hwn.

158. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y Cyngor ar 28 Mawrth 2018 fel cofnod gwir a chywiros cyfarfod.

159. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Rhoddodd y Maer wybod i'r Cyngor am rai o'r achlysuron y bu'n bresennol ynddynt yn rhinwedd ei swydd yn ystod y mis. Roedd y rhain yn cynnwys y Ffair Lyfrau flynyddol yng Nghanolfan Westward, Cefn Glas ar y cyd â'r Lions a oedd wedi codi £180,000 tuag at elusennau lleol. Roedd y Maer hefyd yn bresennol mewn digwyddiadau i nodi Canmlwyddiant y RAF yn y Fwrdeistref Sirol, yn Abertawe ac ym Mro Morgannwg. Roedd y Maer hefyd wedi cael pleser o ymweld â Mr and Mrs Thomas a oedd yn dathlu eu 60ain Pen-blwydd Priodas. Roedd y Maer a'i Chymar yn bresennol mewn noson gymdeithasol yn Heronston er budd ei helusennau. Mae dau ddigwyddiad arall eto i'w cynnal er bud ei helusennau dewisedig gan gynnwys noson Teyrnged i Tom Jones ar 17 Ebrill yn yr Hi Tide a'r Gala ar 28 Ebrill yn yr Heronston.

Hefyd cyhoeddodd y Maer mai hi agorodd y cyfleuster 'galw-heibio' i gyn-filwyr ar gyfer Cyn-filwyr a'u teuluoedd a gynhelir yn y Parth. Diolchodd i'r merched yn y Parth a deiliad masnachfaint Subway am yr arlwyfaeth ac i Mr Gareth Evans a'r cyn-filwyr sy'n perthyn i elusen o'r enw 'stepping out', elusen ar gyfer y lluoedd arfog, am drefnu'r cyfan. Diolchodd hefyd i'r AS Madeleine Moon ac aelodau'r Cabinet am eu presenoldeb yn y digwyddiad.

Cyhoeddodd y Maer ei bod wedi bod yn y Senedd i ddathlu Canmlwyddiant Ambiwllans Sant Ioan. Roedd hefyd wedi ymweld â Chanolfan Westward i'r dathliad 'Young at Heart' ac roedd yn dymuno pob hwyl i'r grŵp i'r dyfodol. Gofynnwyd i'r Maer gan Arglwydd Raglaw Morgannwg Ganol y Fonesig Kate Thomas os gallai feddwl am berson a oedd yn haeddu cael mynd i'r Briodas Frenhinol a'i bod hi yn awgrymu'r teulu Hodge o Bettws a enwebwyd gan y Cynghorydd Martin Jones. Dywedodd bod y teulu wedi colli eu mab i Leukemia ddwy flynedd yn ôl a'u bod wedi codi mwy na £20,000 er budd Canser.

Dirprwy Arweinydd

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd bod bron iawn 10,000 o aelwydydd wedi cofrestru ar gyfer y casgliad cynnyrch hylendid amsugol ers ei lansio ym mis Mehefin 2017. Cyn belled, mae 662 o dunelli o'r cynnyrch hwn wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi ac wedi'i anfon i'r gwaith Nappicycle yn Rhydaman sy'n cynhyrchu deunyddiau y gellir eu hailgylchu. Gofynnodd i'r Aelodau ei helpu i atgoffa eu hetholwyr am gynllun lle gall

rhieni plant ifanc fanteisio ar ddisgownt arbennig drwy ddefnyddio cewynnau 'go iawn' y gellir eu hailddefnyddio.

Cyhoeddodd hefyd bod cyfraddau cyflog newydd wedi'u cytuno ar gyfer holl staff NJC a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2018. Caiff y cynnydd ei dalu o fis Mai 2018 ymlaen.

Dywedodd y bydd yr isafswm cyflog felly yn £9 yr awr erbyn mis Ebrill 2019, sy'n cydfynd â dymuniad y canghellor y dylai'r isafswm cyflog cenedlaethol fod yn £9 yr awr erbyn 2020.

Aelod Cabinet Cymunedau

Dywedodd yr Aelod Cabinet Cymunedau wrth yr Aelodau bod y goeden tiwlipau sy'n union gyferbyn â'r Swyddfeydd Dinesig yn afiach a bod rhaid ei dymchwel er budd diogelwch. Caiff y gwaith hwn ei wneud ar yr un adeg â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y llwybr beicio ar hyn o bryd a bod coed newydd wedi cael eu plannu wrth ymyl safle'r goeden fel rhan o'r project hwnnw.

Cyhoeddodd bod Llywodraeth Cymru wedi dweud bod y cais am gyllid i wneud yr ystod lawn o welliannau diogelwch y ffordd ar hyd yr A48 rhwng cylchfannau Broadlands a Waterton wedi bod yn llwyddiannus.

Mae hyn yn dilyn rhywfaint o waith paratoadol a wnaed ar hyd y llwybr 5km y llynedd. Mae'r gwelliannau a gynigir yn amrywio o osod llochesi i gerddwyr mewn lleoliadau allweddol ar hyd y llwybr, gosod arwyneb newydd ar lwybrau cerdded ac estyn troedffyrdd cysylltiedig i godi arwyddion newydd, marciau ffordd newydd a gwneud gwaith i glirio llystyfiant. Gellid hefyd rhoi cyfyngiad cyflymder 50mya ar waith rhwng cylchfannau Ewenni a Broadlands yn hytrach na'r cyfyngiad 50mya presennol.

Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Dywedodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar bod y cynllun pontio maethu newydd ar fin dechrau. Bwriad y cynllun yw cynnig lleoliadau arbenigol tymor hyr o hyd at 24 wythnos sy'n helpu plant a phobl ifanc ag amrywiaeth o anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol. Nod cyffredinol y cynllun yw symud y person ifanc ymlaen i drefniadau hirdymor, llwyddiannus sy'n cyd-fynd a'u hanghenion ac uchelgais a gofynnodd i'r Aelodau helpu drwy roi cyhoeddusrwydd i'r fenter.

Hefyd rhoddodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y newyddion diweddaraf i Aelodau o ran cynnydd yr hyb diogelu amlasiantaethol (MASH). Dywedodd fod y cam cyntaf wedi dechrau yn gynharach yn ystod y mis pan symudodd 12 o staff o Heddlu De Cymru, Gwasanaethau Plant, Cymorth Cynnar ac ABMU i'r swyddfeydd yn Ravens Court. Bydd rhagor o gydweithwyr yn ymuno â nhw yn ystod y misoedd nesaf a bydd y gweithlu yn tyfu i bron 90 i gyd.

Cyhoeddodd hefyd yn dilyn cwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Alex Williams ac yng ngoleuni'r rhaglen deledu ddiweddar gyda Victoria Derbyshire, nifer y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd yw 375 ac o'r rhain mae 266 yn perthyn i grwpiau o frodyr a chwirydd. Roedd 103 mewn grwpiau o frodyr a chwirydd sy'n cynnwys rhwng 2 a 6 o blant. Mae'r datganiad bod *'58% o'r plant sy'n derbyn gofal ym Mhenybont-ar-Ogwr wedi'u cael eu gwahanu oddi wrth eu brodyr a chwirydd'* yn deillio o nifer y grwpiau o frodyr a chwirydd (nid plant unigol) nas anfonwyd i leoliadau gyda'i gilydd. Roedd yn cynnwys 60 o grwpiau o frodyr a chwirydd (roedd 103 yn y boblogaeth gyfan o 388).

Petai'r ceisydd wedi defnyddio plant unigol yn sail i'r cyfrifiad yn hytrach nag 'aelwydydd/grwpiau' byddai'r ffigur wedi bod yn 43%. Roedd hyn yn cynnwys 115 o unigolion (roedd 266 gyda brodyr a chwirydd yn y boblogaeth gyfan o 388 sy'n derbyn gofal). Dywedodd, o'i ddadansoddi ymhellach mae'n bwysig nodi bod 72 o'r 115 o'r

unigolion wedi'u 'gwahanu' gan yr awdurdod lleol ar unwaith neu'n fuan ar ôl iddynt ddod yn blant sy'n derbyn gofal ar yr un pryd. Mae'r 72 o blant yn cynrychioli 18.5% o gyfanswm y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Dywedodd Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar wrth yr Aelodau y byddai'r Cyngor bob amser yn gweithredu ar sail arfer dda ac yn ceisio cadw grŵp o frodyr a chwiorydd gyda'i gilydd pan fo'n bosib fel blaenoriaeth. Mae rhai achosion, fodd bynnag, pan fo asesiad yn nodi y byddai'r plant yn cael budd o fyw ar wahân. Dywedodd bod Gofal Maeth Pen-y-bont ar Ogwr yn gwneud pob ymdrech i gadw grwpiau o frodyr a chwiorydd gyda'i gilydd a'u bod mewn sefyllfa i fanteisio ar deuluoedd maeth estynedig h.y. teuluoedd sy'n cynnwys sawl aelwyd sy'n cynnig lleoliadau maeth. Mewn un teulu mae 3 o frodyr a chwiorydd sy'n oedolion wedi'u cymeradwyo fel aelwydydd maeth a nawr mae un o'u plant eu hunain yn cynnig aelwyd maeth, gydag un arall wrthi'n cael ei asesu. Yn ddiweddar mae hyn wedi galluogi un grŵp o frodyr a chwiorydd sy'n cynnwys 6 o blant i gael eu lleoli gyda'r rhwydwaith hwn o deuluoedd maeth gan wella'r cyswllt a'r cyfle iddynt dreulio amser gyda'i gilydd.

Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Dywedodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth yr Aelodau bod holl ddefnyddwyr presennol hostel Brynmenyn wedi symud i lety arall tra bod gwaith atgyweirio brys yn cael ei wneud ar yr adeilad. Mae'r gwaith yn cael ei wneud ar ôl i ddifrod ymddangos ar yr adeilad yn dilyn ymsuddiant. Mae'r hostel yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynnig lloches i bobl sydd wedi cael eu gwneud yn ddigartref, ac yn eu galluogi i fanteisio ar wasanaethau eraill a gynlluniwyd i'w helpu i gael eu traed oddi tanynt a dod o hyd i lety parhaol. Mae hefyd yn sicrhau nad oes rhaid i'r Cyngor ddefnyddio llety gwely a brecwast i gynnig cartref dros dro i deuluoedd â phlant.

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol bod digwyddiad 'Step Out For Stroke' yn cael ei gynnal ar gyfer y mis nesaf. Mae hwn yn debygol o gynnwys codi ymwybyddiaeth am strôc a sesiynau ymwybyddiaeth yn seiliedig ar 'wybod am eich pwysau gwaed'.

Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio

Dywedodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio wrth Aelodau bod y cerbyd camera symudol sy'n gallu targedu pobl sy'n parcio'n anniogel neu anghyfreithlon y tu allan i ysgolion ar fin cychwyn ar ei waith. Dywedodd bod y cerbyd yn defnyddio technoleg adnabod rhifau cofrestru cerbydau a'i fod yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar wella diogelwch y ffyrdd y tu allan i ysgolion lleol, a sicrhau bod plant yn ddiogel. Dywedodd hefyd bod cynllun 'Dim Pas, Dim Teithio' wrthi'n cael ei dreialu ar y bysus ysgol sy'n teithio yn ôl ac ymlaen o Ysgol Gyfun Brynteg gan fod contractwyr trafndiaeth wedi rhoi gwybod bod nifer fawr o blant anghymwys yn ceisio defnyddio'r drafnidiaeth ysgol am ddim. O ganlyniad, mae nifer o wasanaethau bellach yn orlawn, sydd wedi arwain at bryderon o ran diogelwch a phroblemau o ran ymddygiad ar rai llwybrau. Ar ôl i'r treial ddod i ben, caiff y canlyniadau eu dadansoddi cyn y gwneir penderfyniad p'un ai a ddylid ymestyn y cynllun i gynnwys ysgolion uwchradd eraill.

Cyhoeddodd hefyd bod y cynlluniau ar gyfer Gŵyl Ddysgu 2018 eisoes yn mynd rhagddynt, ac y dylai Aelodau dderbyn pecyn digwyddiadau a gwahoddiad i gymryd rhan cyn bo hir. Mae ysgolion yn cydweithio'n glos a swyddogion i lunio ystod o weithdai a gweithgareddau ar gyfer y cylch trafod a diwrnod y dysgwyr, ac mae rhaglen o weithdai wedi'i hanfon i ysgolion yn amlinellu sut gallan nhw gymryd rhan a chael budd o'r digwyddiadau.

Prif Weithredwr

Ar ran y Prif Weithredwr cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Iasiad gwefan newydd y Cyngor a Fy Nghyfrif. Mae trigolion yn cael eu hannog i fynd i weld y wefan newydd a chofrestru ar gyfer Fy Nghyfrif. Gall y rheiny sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol fewngofnodi i gysylltu â'u cyfrif y dreth gyngor, gwneud taliadau ar-lein, trefnu a rheoli taliadau debyd uniongyrchol a helpu'r Cyngor i arbed arian drwy ddewis e-Filiau.

160. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi gofyn am gyfarfod gyda Gweinidog yr Economi Thrafnidiaeth i wneud cais am gynnydd y nifer y gwasanaethau trên i Faesteg. Roedd hefyd wedi cyfarfod gyda Network Rail gyda golwg ar gael gwared o'r groesffordd drenau ym Mhen-coed.

Roedd ef, ynghyd a'r Aelod Cabinet Cymunedau a swyddogion wedi cyfarfod a chydweithwyr yng Nghyngor Bro Morgannwg i drafod y cysylltiadau gwell rhwng Cyffordd 34 traffordd yr M4 a'r A48 sydd wrthi'n cael eu hystyried. Dywedodd bod swyddogion y Cyngor hwn yn ystyried gwella ardaloedd megis Cyffordd 36 Sarn.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y tân a gafodd ei gynnu yn y maes chwarae yn Heo Las, Cornelly, roedd cost y difrod a chyflwr y maes yn cael ei asesu ac ar hyn o bryd mae'r maes chwarae yn dal ar gau. Diolchodd i'r Gwasanaeth Tân am ymateb yn brydlon i'r digwyddiad, ac roedd yn sicr y byddai eu cydweithwyr yn Heddlu De Cymru yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â rhagor o wybodaeth a fydd yn helpu eu hymchwiliad. Y rhif ffôn yw 101 a dylid dyfynnu'r cyfeirnod 1800 1300 11.

Roedd yr Arweinydd wrth ei fodd o weld y gymuned leol yn chwarae ei rhan yn y gwaith o fathu enw ar gyfer y dabtygiadau Gofal Ychwanegol sy'n mynd rhagddynt ym Maesteg ac Ynysawdre. Bydd y cyfleuster gofal ychwanegol sy'n cael ei ddatblygu ym Maesteg yn ychwanegu cyfanswm o 45 o fflatiau i'r fenter sy'n mynd rhagddi ac mae wedi cael ei enwi yn 'Tŷ Llwynderw' gan un o'r trigolion Barry Walters er mwyn cydnabod ysgol uwchradd fodern Llwynderw gynt. Caiff Tŷ Llwynderw ei leoli ar 'Cae'r Ysgol'. Cyhoeddodd bod y cynllun yn Ynysawdre, sy'n cael ei adeiladu ar safle Ysgol yr Archesgob McGrath gynt ar dir wrth ymyl Coleg Cymunedol Y Dderwen a'r ysgol newydd, Ysgol Gynradd Brynmenyn, yn cynnig 25 o fflatiau Gofal Ychwanegol, 15 o ystafelloedd gofal preswyl ac ystod o gyfleusterau cymunedol. Ei enw fydd Tŷ Ynysawdre sef yr enw a gynigiwyd gan y trigolion Sally Hallet a Ann Szopsa. Mae'r ffordd newydd a lleoliad y datblygiad wedi cael ei enwi yn 'Lôn Derw' gan un o'r trigolion Jayne Taylor.

161. SEFYDLIAD Y GWEITHWYR NANTYMOEL

Gofynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i'r Aelodau yn rhinwedd eu swydd fel Ymddiriedolwyr yr Elusen, Sefydliad y Gweithwyr Nantymoel, i gymeradwyo'r bwriad i gau a dirwyn yr elusen bresennol i ben ac arfer eu pwerau statudol dan adrannau 267-274 Deddf Elusennau 2011 i drosglwyddo holl asedau'r elusen i sefydliad elusennol corfforedig a sefydlir gydag amcanion elusennol tebyg iawn, sef Clwb Bechgyn a Merched a Chanolfan Gymunedol Nantymoel.

Yn dilyn cau Canolfan Berwyn yn 2010, gofynnwyd i'r Comisiwn Etholiadol am ganiatâd i ddymchwel yr adeilad presennol, a dywedodd y Comisiwn y byddai dymchwel yr adeilad yn arwain at broblemau hirdymor y byddai'n rhaid mynd i'r afael â nhw maes o law. Dywedodd bod Canolfan Berwyn dan ymddiriedolaeth gyda'r Cyngor, gyda phob un o'i aelodau etholedig yn gweithredu fel ymddiriedolwr o'r elusen sy'n gyfrifol amdano, sef Sefydliad y Gweithwyr Nantymoel. Yn dilyn dymchwel y Ganolfan, ni fyddai'r Cyngor yn gallu bodloni diben elusennol y Sefydliad mwyach ac felly cynigiodd Comisiwn

Etholiadaol nifer o opsiynau i'w hystyried. Dywedodd mai'r dewis a ffefir yw trosglwyddo'r tir y saif Canolfan Berwyn arno (nid y tir ehangach sy'n ei amgylchynu) a'r arian a gedwir gan yr elusen bresennol i elusen leol arall gydag amcanion elusennol tebyg iawn. At y diben hwnnw mae'r Cyngor yn cefnogi sefydlu Sefydliad Elusennol Corfforedig, Clwb Bechgyn a Merched a Chanolfan Gymunedol Nantymoel, a sefydlwyd at ddibenion elusennol tebyg iawn i holl ddibenion Sefydliad y Gweithwyr Nantymoel.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn lleol am nifer o flynyddoedd i lunio cynllun busnes a chynnig i wario'r cyfalaf o £200,000 a neilltuwyd yn y Rhaglen Cyfalaf pan fyddai Canolfan Berwyn yn cau, tuag at ddatblygu cyfleusterau eraill neu estynedig yn Nantymoel. Dywedodd bod y Cabinet ym mis Tachwedd 2017 wedi cymeradwyo rhydau'r cyfalaf i Glwb Bechgyn a Merched Nantymoel yn seiliedig ar gynllun i ehangu a gwella'r cyfleusterau presennol i alluogi'r gymuned i'w ddefnyddio. Dywedwyd wrth y Cabinet ar y pryd bod y grŵp cymunedol wedi gofyn i'r Cyngor ddilyn y broses sy'n angenrheidiol i ryddhau'r arian a gedwir mewn ymddiriedolaeth, er mwyn ychwanegu at yr £200,000 o arian cyfalaf a neilltuwyd. Dywedwyd wrth y Cabinet ar y pryd bod tua £46,000 wedi'i gadw ac mai gwerth cyfredol y gronfa yw £49,274.69

Dywedodd y gofynnwyd am gyngor pellach gan y Comisiwn Elusennol ar y broses o drosglwyddo asedau'r elusen bresennol yn seiliedig ar y dewis hwn a ffefir. Cynahliwyd cyfarfod cyhoeddus at y diben o ofyn barn trigolion lleol ar ddirwyn yr elusen bresennol, Sefydliad y Gweithwyr Nantymoel, a sefydlu corff ag amcanion elusenol tebyg iawn, Clwb Bechgyn a Merched a Chanolfan Gymunedol Nantymoel, ar 28 Mawrth 2018. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Arweinydd ac ynddo nodwyd y cynnig llawn gan roi'r cyfle i drigolion lleol ofyn unrhyw gwestiynau neu fynegi unrhyw bryderon. Cafodd y cynnig ei gefnogi'n unfrydol yn y bleidlais ddilynol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y byddai dirwyn yr elusen bresennol i ben a throsglwyddo ei hasedau yn arwain at drosglwyddo £49,274.69 i Glwb Bechgyn a Merched a Chanolfan Gymunedol Nantymoel yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol gan y Comisiwn Elusennol. Yn ogystal, caiff y darn o dir yr oedd Canolfan Berwyn yn sefyll arno cyn ei ddymchwel ei drosglwyddo i'r sefydliad elusennol corfforedig a enwir uchod. Bydd amcanion yr elusen yn ei atal rhag cael ei werthu at ddibenion masnachol.

Wrth gymeradwyo'r cynnig dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn gobeithio y byddai'r holl Aelodau yr un mor gefnogol.

PENDERFYNWYD: (1) Y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r cynnig i ddirwyn i ben yr elusen bresennol, Sefydliad y Gweithwyr Nantymoel, a chymeradwyo penderfyniad trosglwyddo pŵer wrth arfer ei bwerau statudol dan adrannau 267-274 Deddf Elusennau 2011 i drosglwyddo holl asedau'r elusen i Sefydliad Elusennol Corfforedig a sefydlir at ddibenion elusennol sy'n debyg iawn i'w holl ddibenion elusennol, sef Clwb Bechgyn a Merched a Chanolfan Gymunedol Nantymoel.

(2) Y byddai'r Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig i gysylltu gyda'r Comisiwn Elusennol yn ffurfiol i gwblhau'r broses o ddiddymu'r elusen bresennol a throsglwyddo ei holl asedau fel y nodwyd uchod.

162. GWYRIAD CAIS CYNLLUNIO P/17/1083/FUL

Nododd y Rheolwr Grŵp - Datblygu fod y pwyllgor Rheoli Datblygu, yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2018, o'r farn nad yw cais cynllunio P/17/1083/FUL yn cyd-fynd â'r Cynllun

Datblygu Lleol. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi penderfynu peidio â gwrthod caniatâd cynllunio a bod y cais wedi'i gyfeirio at y Cyngor gan ofyn iddo gymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Datblygu bod y cais ar gyfer codi estyniad i'r is-orsaf grid yn Is-orsaf Grid Pen-y-bont ar Ogwr, oddi ar Great Western Avenue, Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd y byddai'r estyniad arfaethedig i'r gorllewin o'r is-orsaf bresennol yn sicrhau lle i godi adeilad sy'n cynnig y cyfle i uwchraddio'r is-orsaf bresennol drwy drawsffurfio'r foltedd sy'n dod i mewn i'w ddsbarthu i'r rhwydwaith lleol a darparu pŵer ar gyfer ardal ehangach Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd wrth y Cyngor y bod angen uwchraddio a moderneiddio'r seilwaith presennol. Mae safle'r cais yn y prif anheddiad ym Mhenybont-ar-Ogwr, fel y diffinir gan Gynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr ac o fewn y Safle Datblygu Adfywio a Defnydd Cymysg - Seidins Coity Road, Pen-y-bont ar Ogwr fel y diffinir gan Bolisi PLA3 y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r safle wedi'i neilltuo ar gyfer cynlluniau adfywio a defnydd cymysg sy'n cynnwys 140 o unedau preswyl (COM1(4)), swyddogaeth cyflogaeth (REG1(3)) sydd eisoes wedi'i ddatblygu) a chyfleuster Parcio a Theithio i wasanaethu Gorsaf Rheilffordd Melin Ifan Ddu.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Datblygu fod y safle yn cynnig cyfleoedd datblygu dros gyfnod y cynllun gyda golwg ar helpu i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ac y byddai'r neilltuad yn arwain at sicrhau datblygiad preswyl, cyflogaeth a masnachol cynhwysfawr, wrth ddarparu cyfleusterau trafnidiaeth, cymunedol, addysg a hamdden i wasanaethu'r gymuned.

PENDERFYNWYD: Nad yw'r Cyngor am wrthod y datblygiad ac y dylid rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad mewn perthynas â'r cynnig yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.

163. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL PEN-Y-BONT AR OGWR (CDLL) – ADRODDIAD ADOLYGU DRAFFT

Gofynnodd y Rheolwr Grŵp - Datblygu am gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad targedig ar yr Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd bod yr Adroddiad Adolygu drafft yn cyflwyno hyd a lled y newidiadau tebygol i'r CDLI (2006-2021) presennol ac yn gofyn am gadarnhau y caiff y weithdrefn adolygu ei dilyn wrth baratoi CDLI newydd. Dywedodd wrth y Cyngor y cynigir y byddai'r CDLI Newydd yn cwmpasu cyfnod hyd at 2033, sef diwedd cyfnod o 15 mlynedd a fydd yn dechrau yn 2018.

Dywedodd y cafodd y CDLI ei fabwysiadu ar 18 Medi 2013 a'i fod yn nodi amcanion y Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros gyfnod o 15 mlynedd o 2006 i 2021, a'i bolisi o ran eu gweithredu. Dywedodd bod CDLI ddiweddaedig yn rhan hanfodol o system gynllunio a arweinir gan gynllun yng Nghymru. Er mwyn sicrhau yr asesir yn rheolaidd a chynhwysfawr p'un ai yw cynlluniau yn dal yn gyfredol, mae'n ofyniad statudol ar y Cyngor i gynnal adolygiad llawn o'r CDLI mabwysiedig yn ystod cyfnodau o ddim mwy na phob pedair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu. Gan hynny, sbardunwyd adolygiad llawn o'r CDLI mabwysiedig ym mis Medi 2017. Ers iddo gael ei fabwysiadu, mae'r CDLI wedi bod yn destun adolygiad blynyddol ac mae tri Adroddiad Monitro Blynyddol wedi'u cyhoeddi.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Datblygu cyn y gellir gwneud unrhyw adolygiad mewn cysylltiad â Chynllun Datblygu bod rhaid cynnal Adroddiad Adolygu i benderfynu ar y llwybr gweithdrefnol priodol a'r problemau allweddol i'w hystyried wrth fwrw ymlaen â'r CDLI. Dywedodd bod yr Adroddiad Adolygu hefyd yn ystyried p'un ai a ddylai'r broses o

baratoi CDLI newydd gael ei gyflawni'n unigol neu ar y cyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos. Tynnodd sylw at brif ganlyniadau'r Adroddiad Adolygu drafft o ran Newidiadau Cyd-destunol; Asesu'r newidiadau tebygol sydd angen eu gwneud i'r CDLI presennol; Adolygu'r Opsiynau o ran Sail y Dystiolaeth ac Adolygu'r CDLI.

Holodd Aelod o'r Cyngor ba drefniadau fyddai ar waith i Aelodau gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y CDLI. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu y caiff Grwpiau Pwnc eu sefydlu ac y caiff Aelodau lleol ac aelodau Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned eu gwahodd i gymryd rhan yn y broses ar y cam adolygu.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at benderfyniad y Cyngor i fwrw ymlaen a'i gynllun ei hun gan ofyn p'un ai a yw'n bwriadu cydweithio gydag awdurdodau cyfagos megis Cyngor RhCT, yng ngoleuni cynigion ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr yn RhCT sy'n agos iawn at ei ffin â Phenybont-ar-Ogwr. Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Datblygu bod trefniadau cydweithio ar waith gydag awdurdodau lleol cyfagos yn enwedig pan fo ceisiadau cynllunio yn arwain at drafod materion trawsffiniol. Dywedodd y byddai CDLI Cyngor RhCT yn dod i ben tua'r un adeg a CDLI y Cyngor hwn. Dywedodd hefyd y byddai effaith y datblygiad mawr dan sylw ar Benybont-ar-Ogwr yn cael ei ystyried gan swyddogion.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor p'un ai y gellir adolygu'r polisi ar dai fforddiadwy. Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at nifer yr adeiladau gwag yng nghanol trefi gan ofyn a ellid ystyried cynnwys Pencoed yn unol â'r trefi eraill yn y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu y byddai'n rhaid ystyried y polisi ar dai fforddiadwy a nifer yr adeiladau gwag mewn canol trefi yn fanwl yng nghyd-destun y CDLI.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at yr angen i swyddogion roi sylw i'r effaith a gaiff datblygiadau tai newydd ar fodloni'r galw am leoedd ysgol. Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu y byddai swyddogion o'r Adran Addysg yn rhan o'r Gweithgor ac y caiff effaith datblygiadau tai ar addysg a gwasanaethau eraill y Cyngor ei hystyried.

PENDERFYNWYD:

(1) Cymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad Adolygu at ddibenion ymgynghori targedig.

(2) Y byddai'r Cyngor yn awdurdodi'r Rheolwr Grŵp - Datblygu y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu drafft.

(3) Bod y Cyngor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Rheolwr Grŵp Datblygu y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i wneud unrhyw gywiriadau ffeithiol neu fân newidiadau i'r Adroddiad Adolygu drafft yn ôl yr angen.

164. ADOLYGIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL PEN-Y-BONT AR OGWR – CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT

Gofynnodd y Rheolwr Grŵp - Datblygu am gymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad targedig ar yr Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd bod y ddogfen drafft yn nodi sut a phryd y caiff y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at baratoi'r Cynllun Newydd ac amserlen ar gyfer ei baratoi. Dywedodd wrth y Cyngor y cynigir y byddai'r CDLI Newydd yn cwmpasu cyfnod hyd at 2033, sef diwedd cyfnod o 15 mlynedd a fydd yn dechrau yn 2018.

Dywedodd bod y Cytundeb Cyflawni yn cynnwys 2 ran, sef amserlen ar gyfer paratoi'r CDLI Newydd, a Chynllun Cynnwys y Gymuned. Cyflwynodd amserlen sy'n nodi'r dyddiadau allweddol gan gynnwys cyfnodau ymgynghori statudol ar gyfer yr holl gamau

gwahanol sy'n gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun a'i gyhoeddi. Roedd hefyd yn cynnwys cyfnodau allweddol ar gyfer cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd, sef proses ailadroddol a gyflawnir fel rhan hanfodol o'r broses o baratoi'r Cynllun.

Dywedodd bod y Cynllun Cynnwys y Gymuned yn amlinellu egwyddorion ymgysylltu cymunedol yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ei ddull o ran â phwy, sut a phryd y mae'n bwriadu ymgysylltu a'r gymuned a rhanddeiliaid; sut y bydd yn ymateb i sylwadau a sut y bydd y sylwadau hyn yn llywio camau diweddaraf y gwaith o baratoi'r cynllun. Yn dilyn ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni drafft cynigir ailgyflwyno'r Cytundeb Cyflawni terfynol gerbron y Cyngor i'w gymeradwyo. Cynhelir yr ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft ochr yn ochr a'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu drafft a chynigiwyd y dylid cyflwyno'r ddwy ddogfen i Lywodraeth Cymru cyn diwedd mis Mehefin.

- PENDERFYNWYD:
- (1) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu at ddibenion ymgynghori targedig.
 - (2) Y byddai'r Cyngor yn awdurdodi Rheolwr Grŵp - Datblygu y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i ymgynghori ar yr Adroddiad Adolygu drafft.
 - (3) Bod y Cyngor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Reolwr Grŵp Datblygu y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i wneud unrhyw gywiriadau ffeithiol neu fân newidiadau i'r Adroddiad Adolygu drafft yn ôl yr angen.

165. ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Rhoddodd Rheolwr Grŵp - Cyfreithiol adroddiad ar Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lefel y gydnabyddiaeth ariannol y mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau ei fod ar gael i Aelodau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/19.

Roedd cynrychiolwyr y Panel wedi cynnal ymweliadau â'r holl brif Gyngorau ym 2017 i drafod y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol a sut y caiff ei gweithredu ym mhob Cyngor. Roedd y Panel wedi gwneud 52 o gynigion yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19.

Arweiniodd Rheoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Cymru) 2007 at sefydlu Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Penderfynodd y Panel i gynyddu Cyflog Sylfaenol aelodau etholedig gan £200, byddai'r cyflog ar gyfer aelodau etholedig y prif gyngorau ar gyfer 2018/19 yn £13,600. Nid oedd y Panel wedi newid ei benderfyniadau blaenorol mewn perthynas â'r cyflogau uwch a delir i ddeiliaid Swyddi Uwch sy'n cynnwys y cynnydd yn y Cyflog Sylfaenol. Mae Cyflog yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd yn seiliedig ar boblogaeth y Fwrdeistref Sirol (100,000 - 200,000), gyda'r Arweinydd yn cael £48,300 a'r Dirprwy Arweinydd yn cael £33,800. Mae'r Panel wedi cael gwared y lefelau gwahanol o ran y taliadau a wneir i aelodau Cabinet ac mae pob un ohonynt bellach yn gallu hawlio'r cyflog uwch o £29,300. Mae'r Panel hefyd wedi cael gwared ar y lefelau gwahanol o ran y taliadau a wneir i Gadeiryddion Pwyllgor a bydd pob Cadeirydd yn cael cyflog o £22,200. Mae hefyd wedi ailadrodd mai mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu pa gadeiryddion a delir. Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Cyfreithiol bod y Cyngor yn ei Adroddiad Blynyddol ym mis Mai 2017 wedi penderfynu talu'r Cadeiryddion Pwyllgor canlynol:

Panel Apeliadau

Pwyllgor Archwilio
2.3.4 Pwyllgor Rheoli Datblygiad
Trwyddedu/Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003
Trosolwg Pwnc a Phwyllgor Craffu 1
Trosolwg Pwnc a Phwyllgor Craffu 2
Trololwg Pwnc a Phwyllgor Craffu 3
Aelod Annibynnol sy'n cadeirio'r Pwyllgor Safonau y telir £256 iddo am gyfarfod sy'n para mwy na 4 awr neu £128 am gyfarfod dan 4 awr.

Mae'r Pwyllgorau canlynol yn cael eu cadeirio gan aelodau sydd eisoes yn cael cyflog Uwch/Dinesig ac felly nid ydynt yn cael unrhyw dâl ychwanegol.

- Y Cyngor
- Pwyllgor Penodiadau
- Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned
- Is-bwyllgor Hawliau Tramwy
- Nid yw Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democraidd yn cael tâl ar hyn o bryd.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Cyfreithiol fod y Panel eisoes wedi penderfynu y dylai'r Cyngor sicrhau bod cyflog uwch o £22,300 ar gael i arweinydd yr wrthblaid fwyaf sy'n cynrychioli o leiaf 10% (6 Aelod) o'r Cyngor cyn bod yn gymwys i gael cyflog uwch. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn sicrhau bod cyflog uwch ar gael i arweinydd grŵp y Gyngrhair Annibynnol. Mae cyflog uwch o £17,300 hefyd ar gael i arweinydd unrhyw grŵp arall sy'n cynrychioli o leiaf 10% (6 Aelod) o'r Cyngor. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn sicrhau bod cyflog uwch ar gael i arweinydd grŵp y Ceidwadwyr. Mae'r Panel wedi nodi na chaiff Pen-y-bont ar Ogwr dalu mwy nag 18 o swyddi Cyflogau Uwch ac yn ei Gyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2017 penderfynodd mai dim ond 15 o gyflogau swyddi Uwch gaiff eu talu.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Cyfreithiol bod y Panel wedi penderfynu y gellir talu cyflogau dinesig ac y dylai lefel y cyflog gael ei benderfynu gan Gynghorau ar ôl rhoi ystyriaeth i lwyth gwaith a chyfrifoldebau'r rolau.

<u>Lefel 2</u>	<u>Y Maer</u>	<u>Dirprwy Faer</u>
Lefel 1	£24,300	£18,300
Lefel 2	£21,800	£16,300
Lefel 3	£19,300	£14,300

Mae'r Maer a'r Dirprwy Faer presennol yn cael Cyflogau Dinesig a Chyngor Lefel 2 ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2017-18.

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Cyfreithiol adroddiad ar benderfyniadau'r Panel mewn perthynas â chefnogi gwaith aelodau etholedig awdurdodau lleol. Mae Penderfyniad 17 a wnaed gan y Panel yn gallu pob Cynghorydd yn yr Awdurdod i ymuno a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Penderfynodd y Panel bod hawl gan Aelod Etholedig i gael cyflog sylfaenol pan fydd yn cymryd absenoldeb teuluol dan Reoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 waeth beth fo'r cofnod o absenoldeb cyn dechrau'r absenoldeb teuluol. Pan fydd uwch ddeiliad swydd yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, byddai ef/hi yn parhau i dderbyn y cyflog drwy gydol yr absenoldeb. Mater i'r Awdurdod oedd penderfynu p'un ai i benodi rhywun yn ei lle/lle. Byddai'r Aelod Etholedig sy'n cymryd lle uwch ddeiliad cyflog sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i dderbyn cyflog uwch, petai'r Awdurdod yn penderfynu talu hwnnw iddo.

Dyweddodd y Rheolwr Grŵp - Cyfreithiol fod y Cabinet wedi penodi'r Cyngorwyr CE Smith a DBF White i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Ni fyddai unrhyw Arweinydd neu Aelod Cabinet gaiff ei bennod i'r gwasanaeth dan sylw yn cael cyflog ychwanegol ganddo. Y Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gyfrifol am dalu ei gynrychiolwyr a chyhoeddi manylion unrhyw daliadau a wneir ganddynt.

Dyweddodd y Rheolwr Grŵp – Cyfreithiol bod gan yr awdurdod y Cyfetholedigion canlynol gyda hawliau pleidleisio:

- Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
- 3 Aelod Annibynnol ar Bwyllgor Safonau
- 2 Aelod Cyngor Tref a Chymuned Cyfetholedig ar y Pwyllgor Safonau
- 5 Cynrychiolydd cofrestredig (Llywodraethwyr Ysgolion Eglwysig ac Ysgolion)
- 1 Person lleyg a benodwyd i'r Pwyllgor Archwilio

Roedd yr holl awdurdodau yn talu'r costau am ofalu am blant ac oedolion sy'n ddibynnyddion (gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac am anghenion cymorth personol o hyd at £403 y mis. Caiff y taliadau eu gwneud dim ond os cyflwynir derbynneb gan y gofalwr.

Mae'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 yn benodol iawn o ran yr hawliad sydd ond ar gael i Aelodau Etholedig y prif gynghorau. Nid yw absenoldeb oherwydd afiechyd yn gynwysedig. Codwyd achosion yn ymwneud ag uwch ddeiliaid cyflog sy'n absennol oherwydd salwch hirdymor gyda'r Panel ac annhegwch ymddangosiadol hyn o'i gymharu â'r trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol. O ganlyniad, mae cynghorau'n wynebu'r broblem ganlynol sef:

- Gweithredu heb yr aelod unigol gan barhau i dalu'r cyflog uwch iddo.
- Penodi rhywun yn lle'r aelod dan sylw a fydd yn colli'r cyflog uwch (ond yn cadw'r cyflog sylfaenol).

Penderfynodd y Panel na fyddai'n newid y gyfradd milltiroedd y mae hawl gan yr aelodau i'w chael.

Er nad yw'r Cyngor yn gallu newid lefel y tâl a benderfynir gan y Panel, caniateir i aelodau unigol wrthod y cyfan neu unrhyw elfen o'r tâl y mae hawl ganddynt iddo drwy ysgrifennu at Swyddog Priodol yr Awdurdod.

Y gyllideb gyfredol a bennwyd ar gyfer 2018/19 ar gyfer talu aelodau etholedig yw £1,104,140.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cyngor:

- y byddai'n mabwysiadu penderfyniadau perthnasol y Panel Taliadau Annibynnol yn Adroddiad Blynyddol mis Chwefror 2018 fel y dangosir yn Atodiad 1.
- y swyddi hynny (fel y dangosir yn yr Atodlen Taliadau Aelodau diwygiedig yn Atodiad 2), a fydd yn derbyn cyflog uwch/dinesig.
- lefel y taliadau ar gyfer y Cyflogau Dinesig.
- yr Atodlen Taliadau Aelodau diwygiedig yn Atodiad 2, ac iddi ddod i rym o 16 Mai 2018 (Cyfarfod Blynyddol y Cyngor).

- y byddai Atodlen Taliadau Aelodau yn cael ei diweddarau'n awtomatig gydag unrhyw newidiadau dilynol i swyddi â Chyflog Uwch/Dinesig a wneir gan y Cyngor yn ystod blwyddyn ddinesig 2018/19.

166. I DDERBYN Y CWESTIYNAU DILYNOL I'R GWEITHREDIAETH:

Cwestiwn gan y Cynghorydd Altaf Hussain i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

“All yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol ddweud wrth y Cyngor sawl asesiad gofal cymdeithasol ar gyfer adferiad preswyl sydd wedi'u cyflawni yn ystod y tair blynedd diwethaf ym Mwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr a sawl un o'r rheiny sydd wedi arwain at leoliadau mewn canolfannau adferiad preswyl a pha rai?

Ymateb:

Y Tîm Adnoddau Cymunedol ydy cyfuniad o Wasanaethau Gofal Canolraddol ym Mhenybont-ar-Ogwr mewn un gwasanaeth; un o'r gwasanaethau hyn yw Ail-alluogi Preswyl. Gwneir cyfeiriadau i'r Tîm drwy un pwynt cyswllt, y Pwynt Mynediad Cyffredinol, sy'n cael ei staffio gan staff trin galwadau profiadol a thîm Triage Amlddisgyblaethol sy'n sgrinio'r atgyfeiriadau gyda golwg ar nodi'r ymateb mwyaf priodol a'r flaenoriaeth. Mae hyn yn symleiddio'r broses gyfeirio pobl at y gwasanaeth gan sicrhau bod ymyriadau'n cael eu cyflawni gan yr elfen fwyaf priodol ac felly yn osgoi ailadrodd atgyfeiriadau. Gan nad yw'r atgyfeiriadau'n cael eu gwneud ar gyfer elfennau penodol o'r adnoddau dan sylw nid ydym yn gallu darparu'r data y gofynnwyd amdano. Mae'r data canlynol yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i'r tîm yn ystod y tair blynedd olaf.

2015 – 2601 Atgyfeiriad ac Ail-atgyfeiriad i'r Tîm Adnoddau Cymunedol

2016 – 2404 Atgyfeiriad ac Ail-atgyfeiriad i'r Tîm Adnoddau Cymunedol

2017 – 2542 Atgyfeiriad ac Ail-atgyfeiriad i'r Tîm Adnoddau Cymunedol

Mae'r dirywiad bach yn y cyfraddau cyfeirio yn deillio'n bennaf o'r ffaith ein bod ni wedi bod yn gweithio ar lwybrau atgyfeirio a sicrhau eu bod oll yn cael eu cyfeirio drwy'r Pwynt Mynediad Cyffredinol. Mae hyn wedi ein helpu i leihau unrhyw ailadrodd, h.y. gwneud cyfeiriadau i nifer o wasnanethau ac aros i'r cyntaf ymateb.

Mae Uned Ailalluogi Bryn y Cae yn addas ar gyfer unigolion sydd, am gyfnodau byr o amser, yn debygol o fod angen cymorth dwysach gyda gweithgareddau byw bob dydd na fyddai'n bosibl ei ddarparu yn y cartref. Mae'r Uned yn gallu cynnig lle i 6 o bobl ar unrhyw adeg a hyd yr arhosiad arferol yw hyd at 6 wythnos ond mae hyblygrwydd o ran hyn yn dibynnu ar gynnydd yr unigolyn. Mae'r Uned Ail-alluogi mewn adain benodol yng Nghartref Gofal Preswyl Bryn y Cae, Brackla, Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn y tabl isod, nodir nifer y lleoliadau a ddechreuodd yn Uned Ail-alluogi Preswyl Mryn y Cae am dair blynedd olaf ynghyd â'r cyfraddau deiliadaeth.

Blwyd dyn	Nifer y lleoliadau newydd a ddechreuwyd	% Deiliadaeth
2015	43	76%
2016	44	83%
2017	45	82%

Mae ychydig o ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau deiliadaeth:

mae'r gwelyau dan sylw wedi'u neilltuo ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty sy'n golygu ein bod yn dibynnu ar un ffynhonnell atgyfeirio. efallai y bydd gwelyau ar gael ond na fydd atgyfeiriadau yn dod i law gall atgyfeiriadau ddod i law ond yna caiff y person ei anfon i'w gartref ei hun yn hytrach, i gyflawni'r gwaith ailalluogi mae'n bosib y bydd yr atgyfeiriad yn amhriodol gan fod y person yn rhy wael, heb nodau neu â phroblemau gwybyddol sy'n golygu bod ail-alluogi yn amhriodol.

Dywedodd y Cynghorydd Hussain wrth y Cyngor y byddai'n gofyn cwestiwn atodol i'r Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ar bapur.

Cwestiwn i'r Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio gan y Cynghorydd R Stirman

“O ystyried bod y Llywodraeth yn bwriadu gwahardd gwerthu ceir disel a phetrol yn y dyfodol agos, a oes gan y Cyngor gynlluniau i roi strategaeth ar waith ar gyfer cyflwyno manau gwefru trydan drwy gydol y Sir? Ac os felly, pryd gaiff y polisi hwn ei gyflwyno? A fydd hwn yn rhywbeth gaiff ei ystyried yn y gwaith o lunio CDLlau y dyfodol? Hefyd, pa ddarpariaeth fydd yn cael ei gwneud ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y galw am drydan ym Mwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr?”

Ymateb:

Diolch am eich cwestiwn ynghylch cyflwyno manau gwefru trydan. Yn amlwg mae hwn yn ystyriaeth bwysig ac wrth i gerbydau trydan ddod yn fwy amlwg yn y dyfodol, bydd y galw am fanna gwefru mewn lleoliadau hygyrch neu yn y cartref yn cynyddu, er mai dim ond ychydig iawn sydd wedi cysylltu â'r Cyngor ynglŷn â hyn.

O ran cynllunio, mae polisi cynllunio cenedlaethol newydd yn awgrymu y byddai gofyn i ddatblygiadau newydd ddarparu manau gwefru ar gyfer cerbydau trydan – bydd hyn yn dod o dan y Rheoliadau Adeiladau maes o law.

Felly ni fyddai'n briodol i ailadrodd polisi cenedlaethol mewn CDLlau.

Bydd y polisi hwn, fodd bynnag, ond yn berthnasol i ddatblygiadau newydd ond dylai'r cyngor ystyried polisiâu gyda'r uchelgais honno mewn CDLl yn y dyfodol i annog y gwaith o ddarparu seilwaith gwefru ym Mhenybont-ar-Ogwr, nowch bod y CDLl wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Nid yw hyn o reidrwydd yn sicrhau y caiff ei gyflawni oherwydd gallwn ofyn am gyfraniadau S106 dim ond i hwyluso datblygiad penodol ac ni fyddai manau gwefru yn cael eu hystyried fel 'project seilwaith' yn rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Er hynny, gallai helpu gyda cheisiadau am gyllid yn y dyfodol petai polisi i ategu hynny yn y cynllun datblygu yn yr un ffordd y mae gwella priffyrdd wedi'u nodi yn y cynllun cyfredol. Bydd rhaid i ni edrych yn ofalus ar y mater hwn fel rhan o'r sail tystiolaeth.

Ar hyn o bryd mae'n amheus o ran p'un ai a yw man gwefru yn 'ddatblygiad' gwirioneddol, hynny yw, petai'r Cyngor yn penderfynu darparu manau gwefru yn ei feysydd parcio ei hun [y bwriad yw gosod ychydig o fannau gwefru ym Maes Parcio y Rhiw fel treial] yna mae'n bosib na fyddai angen caniatâd cynllunio (mae rhai archfarchnadoedd hefyd yn ystyried darparu manau gwefru yn rhai o'u meysydd parcio eu hunain ac mae manau gwefru eisoes ar gael yng Ngwasanaethau Sarn). Wrth gwrs, mater corfforaethol i'r Cyngor ei ystyried yw hwn, ond efallai nad yw'n bosibl i'w sicrhau'n uniongyrchol o dan y system gynllunio ac efallai y bydd yn gofyn am ymrwymiad ariannol. Mae'n bosib y gall Llywodraeth Cymru gyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol agos i esbonio hyn. Mae nifer sylweddol o grantiau ar gael i ddarparu manau gwefru o dan yr amgylchiadau priodol a lleoliadau priodol, a'r dull y mae llawer o Awdurdodau eraill wedi'i ddefnyddio yw ddibynnu ar gyfuniad o

ddarpariaeth sector preifat a manau gwefru cyhoeddus a gaiff eu gosod mewn lleoliadau strategol. Hefyd, mae gwaith ymchwil wedi dangos pan fo Awdurdodau Lleol yn caniatáu darparu manau gwefru EV mewn strydoedd preswyl, y cyflwynir proses sy'n golygu mai'r perchennog sydd fel arfer yn gyfrifol am dalu'r costau. Fodd bynnag, mae'n debyg y gall hyn greu anhawsterau eraill o ran defnyddio'r offer gwefru penodol oni bai bod lle yn cael ei neilluto oherwydd gall pobl eraill ddewis parcio yn y lleoliad hwnnw. Mae'n amlwg felly bod llawer o ystyriaethau y byddai'n rhaid eu hystyried yn fanwl i lunio strategaeth gredadwy ac ymarferol.

Er ei bod hefyd yn bosib ystyried y galw yn y farchnad o ran darparu'r seilwaith – wedi'r cyfan ni fu erioed polisiau cynllun datblygu yn gofyn am orsafoedd petrol, mae'n rhaid i ni ystyried ffurf y gwaith hwn yn ofalus. Er enghraifft, mae cwmni cenedlaethol wrthi'n gofyn barn pobl am fannau gwefru EV y maen nhw'n fodlon eu darparu, er y bydd y rhain hefyd yn cynnwys hysbysebion, hynny yw, gallwn fod mewn sefyllfa lle bydd gennym fwy o hysbysebion gyda manau gwefru'n gysylltiedig â nhw, gyda goblygiadau gweledol ac o ran diogelwch y ffyrdd.

Byddai'n rhaid i hyn fod yn destun trafodaeth ehangach o ran cynllunio/adfywio/priffyrdd oherwydd gallwn fod yn sicr y bydd y nifer sy'n defnyddio ceir trydan yn debygol o gynyddu dros y ddegawd nesaf.

I grynhoi, mae gan y CDLI ran i'w chwarae, ond ni allwn ddibynnu arno'n llwyr i ddarparu'r seilwaith. Gall manau gwefru fod y tu allan i gwmpas rheoli cynllunio ac mae potensial i ddulliau newydd ac arloesol i'r sector cyhoeddus ymateb i'r galw. Mae parhad y cyflenwad a'r galw am drydan wrth gwrs yn fater i'r diwydiant trydan a'r cwmnïau grid.

Bydd rhaid ystyried yr holl faterion hyn yn llawn a'u deall er mwyn llunio strategaeth gredadwy ac ystyrion. Bydd rhaid i'r Cabinet drafod sut mae hyn yn cydfynd â blaenoriaethau eraill y Cyngor ac felly pa mor gyflym y dylid rhoi blaenoriaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd Stirman gwestiwn ategol o ran beth fydd yn digwydd yn y tymor byr pan fydd trigolion sydd wedi prynu ceir trydan yn gosod ceblau ar draws palmentydd Dywedodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau nad oes unrhyw ganllawiau clir eto mewn cysylltiad â manau gwefru a phwy sy'n talu am eu gosod pan nad ydyn nhw ar dai trigolion. Dywedodd y dylai Llywodraeth y UK ofyn i'r diwydiant ceir a manwerthwyr i gadarnhau'r cynlluniau ar gyfer gosod manau gwefru yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Aelod Cabinet - Cymunedau yn ysgrifennu at yr archfarchnadoedd lleol yn gofyn iddyn nhw ystyried gosod manau gwefru ar gyfer cerbydau trydan a chadarnhau eu strategaeth ar gyfer gosod manau gwefru.

167. HYSBYSIAD O GYNNIG GAN GRWP PLAID CYMRU PEN-Y-BONT AR OGWR:

Cynigiodd y Cynghorydd T Thomas yr Hysbysiad o Benderfyniad canlynol ar ran Grŵp Plaid Cymru.

Sir Pen-y-bont ar Ogwr Ddi-blastig

Mae'r Cyngor yn cydnabod Pryderon y gymuned ehangach o ran llygredd gwastraff plastic a'i effaith andwyol ar fywyd gwyllt a'n harfordir Mae'r Cyngor yn cynnig Fel rhan o'n cyfrifoldebau tuag at gynaliadwyedd byd-eang dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn cefnogi'r cynnig i wneud Pen-y-bont ar Ogwr yn 'awdurdod di-blastig'.

Dywed y Cyngor

Byddwn yn

gweithio tuag at hyn yn y ffyrdd canlynol:

1. Byddwn yn adolygu ein sefydliad ein hunain ac yn rhoi'r gorau i ddefnyddio eitemau plastig a ddefnyddir unwaith yn unig ac annog defnyddio eitemau bioddiraddadwy yn hytrach nag eitemau plastig megis gwellt yfed, cwpanau coffi plastig .
 2. Byddwn yn cysylltu busnesau'r Fwrdeistref Sirol i'w hannog i roi'r gorau i ddefnyddio eitemau plastig a ddefnyddir unwaith yn unig, defnyddio llai o ddeunyddiau pacio a chymhwyso egwyddorion cynaliadwyedd yn eu busnes bob dydd.
 3. Rydym yn hyrwyddo 'Pen-y-bont ar Ogwr di-blastig' drwy'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau marchnata a chyfathrebu priodol eraill.
- Byddwn yn parhau i gefnogi mentrau cymunedol er mwyn 'Cadw Pen-y-bont ar Ogwr yn Daclus' gan gynnwys ein traethau, parciau a strydoedd, ac yn hyrwyddo deunyddiau amgen i ddeunyddiau tafladwy, yn unol ag egwyddorion yr economi gyloch a hierarchaeth gwaredu gwatraff.
5. Byddwn yn hyrwyddo polisïau masnach deg a chynllun siopa yn lleol.
 6. Byddwn yn ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth Cymru yn gofyn iddyn nhw ystyried ba fesurau, gan gynnwys cyfarwyddyd a deddfwriaeth, y y gellir eu cyflwyno i leihau gwastraff plastig ledled Cymru, yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd eisoes.

Cred y Cyngor Dylid monitro effeithiolrwydd y polisi arfaethedig o leiaf bob blwyddyn i dynnu sylw aelodau at y cynnydd fel rhan o'r broses craffu.

Eiliwyd yr Hysbysiad o Gynnig gan y Cyngorydd A Williams.

Mynegodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau rywfaint o gydymdeimlad ag egwyddorion yr Hysbysiad o Benderfyniad gan fod y Cyngor yn cefnogi targed dim gwastraff Llywodraeth Cymru a hyrwyddo'r ymgyrch ddi-blastig a'r Fenter Cadw Pen-y-bont ar Ogwr yn Daclus. Nododd bod y Cyngor eisoes yn gwneud llawer iawn mewn cysylltiad ag ysbryd yr Hysbysiad o Benderfyniad a gofynnodd am dynnu'r Hysbysiad o Gynnig yn ôl, ac yn hytrach, cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Craffu a Throsolwg perthnasol fel y gall y Cyngor nodi beth mae'n ei wneud a nodi'r ble mae'r bylchau er mwyn ei alluogi i nodi'r camau nesaf.

Tynnodd y Cyngorydd T Thomas yr Hysbysiad o Gynnig yn ôl.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor ei fod ef a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau wedi cwrdd â'r Gweinidog Cymunedau a oedd wedi cadarnhau bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ei dargedau ailgylchu. Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi gofyn i'r Gweinidog beth oedd ei gynlluniau o ran dwyn perswâd ar fanwerthwyr i leihau faint o ddeunydd pacio plastig a ddefnyddir ganddynt a chadarnhaodd wrth y Cyngor y byddai'n gofyn am y cadarnhad hwnnw gan y Gweinidog yn ysgrifenedig.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Hysbysiad o Gynnig gwreiddiol yn cael ei dynnu'n ôl ac yn hytrach y byddai'r mater yn cael ei anfon gerbron y Pwyllgor Craffu a Throsolwg perthnasol fel y gall y Cyngor nodi beth mae'n ei wneud a nodi'r ble mae'r bylchau er mwyn ei alluogi i nodi'r camau nesaf.

168. EITEMAU BRYN

Cytunodd y maer i'r eitem ganlynol gael ei hystyried fel eitem frys yn unol â rhan 4 (paragraff 4) o reolau gweithdrefnol y cyngor i alluogi'r gwaith o gymeradwyo benthyciadau darbodus a chynnwys y cynlluniau yn y rhaglen gyfalaf ar unwaith ac er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r rhaglen datblygu hybiau menter heb oedi.

169. RHAGLEN DATBLYGU CANOLFANNAU MENTER

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad ar y diweddaraf o ran datblygiad y Rhaglen Datblygu Hybiau Menter gan ofyn am gytundeb i gael benthyciad darbodus o £878,957 ar gyfer cyflawni dau gynllun gwahanol yn y rhaglen gyffredinol ym Mharc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr sef £544,182 a Brocastle sef £334,775 a gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer y cynlluniau dan sylw i'w cynnwys yn y rhaglen gyfalaf. Dyma'r rhaglen datblygu eiddo busnes unigol mwyaf erioed i'w chyflawni gan y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau bod cymeradwyaeth wedi'i roi o'r blaen gan y Cabinet ar gyfer cais gan Fwrdeistref Sirol Cyngor Blaenau Gwent o ran cais i WEFO am Raglen Datblygu Hybiau Menter. Ers hynny, mae WEFO wedi dweud wrth bob un o'r partneriaid y gallant fwrw ymlaen â'u projectau ar wahân.

Dywedodd nad oedd unrhyw unedau dechrau busnes ar gael gan y Cyngor na Business in Focus ac mae rhestrau aros gan y ddau yn yr un modd a ddiwyddodd pan agorodd yr Unedau Dechrau Busnes ym Mhen-coed. Dywedodd mai nod y Rhaglen Datblygu Hybiau Menter oedd cefnogi'r gwaith o adnewyddu a chreu eiddo busnes ym Mhentref Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, Ystâd Ddiwydiannol Village Farm a Brocastle.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor am fanylion rhifau'r busnesau sydd ar y rhestr aros ar gyfer unedau dechrau busnes, eu rhagolygon llif arian ac am fanylion o'r cyfraddau deiliadaeth. Dywedodd aelod o'r Cyngor hefyd bod nifer o unedau nas y gellir eu gosod a bod angen dysgu gwersi er mwyn sicrhau fod gan yr unedau hyblygrwydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau y byddai'n rhoi'r manylion y gofynnwyd amdanynt mewn perthynas â'r unedau dechrau busnes i'r aelodau.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn cymeradwyo benthycia darbodus o £878,957 gyda'r gwerthoedd benthycia neilltuedig o Ddatblygu Hyb Cymunedol (Parc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr ac Ystâd Ddiwydiannol Village Farm) (£544,182) a Datblygu Hyb Menter (Brocastle) (£334,775) a fydd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth, a WEFO yn galluogi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Datblygu Hybiau Cymunedol. Hefyd cymeradwyodd y Cyngor gynnwys y cynlluniau hyn yn y rhaglen gyfalaf i'w cyflawni unwaith y caiff yr holl ffynonellau nawdd eu cymeradwyo.

170. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, fod y cyhoedd yn cael ei wahardd o'r cyfarfod tra bod yr eitemau busnes hyn yn cael eu hystyried gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf hon.

Yn dilyn y prawf o fuddiant y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol mewn preifat, gyda'r cyhoedd wedi'i wahardd o'r cyfarfod, gan ystyriwyd, ym mhob amgylchedd sy'n ymwneud â'r eitemau, y byddai buddiant y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn drech na fuddiant y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth, gan y

CYNGOR - DYDD MERCHER, 25 EBRILL 2018

byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr wedi sôn amdanynt.

171. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO
172. ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO
173. CYHOEDDIAD GAN Y SWYDDOG MONITRO

Daeth y cyfarfod i ben am 16:50